**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); C Everett (Clerc); R Fairhead (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cysylltiadau Corfforaethol); A Davies (Cofnodydd).

1. YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. G Williams | Cyngor Gwynedd |

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Datganodd Colin Everett fuddiant yn yr adroddiad ar benodi swyddog monitro/clerc a dirprwy glerc.

3. RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Tanau Glaswellt – rhoddodd y PSTC Fairhead yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y nifer fawr o ddigwyddiadau tanau glaswellt o ganlyniad i'r tywydd poeth . Yn y tair wythnos ddiwethaf, roedd y Gwasanaeth wedi mynd at 358 o danau eilaidd, roedd y diffoddwyr tân wedi treulio cyfanswm o 1,782 o oriau yn y digwyddiadau, ac amcangyfrifid fod y gost rhwng £106,000 a £178,000.

3.2 Nodwyd y bydd llythyrau o werthfawrogiad yn cael eu hanfon at gyflogwyr diffoddwyr tân y system RDS sydd wedi cael eu rhyddhau o'u prif gyflogaeth i gynorthwyo gyda'r gwaith.

3.3 Roedd yr aelodau'n dymuno cofnodi eu diolch i'r holl staff a swyddogion a fu'n gysylltiedig â'r digwyddiadau tanau glaswellt. O ran cymorth ariannol, gofynnodd yr aelodau a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu tuag at y gost, a chadarnhaodd y PST y bydd yn edrych ar y posibilrwydd. Cadarnhaodd y Trysorydd y gallai hyn gael effaith ar y cronfeydd a fydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

3.4 Oherwydd y costau a grybwyllir uchod, dywedodd y Clerc fod angen ystyried gallu'r Awdurdod i ddelio â'r pethau "anhysbys" sy'n gallu digwydd yn ystod y flwyddyn, a dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried cyllidebau ar gyfer y dyfodol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny.

3.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf, ac y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol ynglŷn ag effaith ariannol y digwyddiadau.**

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 MAI 2018

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

**4.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gyfnod gwir a chywir.**

5. MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID AR GYFER ATAau YNG NGHYMRU

6.1 Rhoddodd y PST wybod i'r aelodau fod y cyfarfod a drefnwyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet ddechrau mis Gorffennaf wedi cael ei ohirio; bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Medi. Yn dilyn cyfarfodydd y ddau uwch academydd gyda chynrychiolwyr o'r tri ATA, roedd adroddiad adborth wedi cael ei baratoi a'i rannu gydag Ysgrifennydd y Cabinet.

6.2 Oherwydd fod y map ad-drefnu awdurdodau lleol wedi cael ei dynnu'n ôl yng nghynhadledd WLGA, dywedodd y Clec y gallai fod yn bosibl cynnwys mater llywodraethu'r ATAau yn y dyfodol yng ngweithgor Cymru gyfan a fydd yn cael ei sefydlu i edrych ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

7. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2018

7.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ymgynghoriad cyhoeddus sydd gan yr Awdurdod ar y gweill ar ei fwriadau o ran gosod y gyllideb ar gyfer 2019/20.

7.2 Gofynnodd yr Aelodau a fyddai sesiwn friffio yn cael ei rhoi i gynghorwyr yn y chwe awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod pob un yn cael cyfle i ddeall canlyniadau opsiynau'r ymgynghoriad. Cadarnhaodd y PST ei fod wedi siarad â phob un o'r chwe phrif weithredwr, a phwysleisiodd y byddai sesiwn friffio o fudd i'r holl gynghorwyr; gofynnwyd i'r aelodau annog hyn yn eu cynghorau a'i bod hefyd yn dod i'r cyfarfod i ddangos eu cefnogaeth.

7.3 Roedd yr aelodau'n gadarn o'r farn ei bod yn bwysig i'r cynghorwyr a'r cyhoedd sylweddoli canlyniadau'r opsiynau; gallai cynnydd fod yn y biliau treth gyngor i dalu costau cyfraniadau'r cynghorau i'r ATA ond os nad yw hyn yn dderbyniol i'r cynghorau a'r cyhoedd, bydd rhaid i'r ATA ystyried opsiynau mwy radical megis cau gorsafoedd er mwyn aros o fewn cyllideb fantoledig.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a bod copi o'r ddogfen ymgynghori yn cael ei hanfon at yr aelodau cyn ei chyhoeddi.**

8. RHEOLIAD CYFFREDINOL YR UNDEB EWROPEAIDD AR DDIOGELU DATA A DEDDF DIOGELU DATA Y DEYRNAS UNEDIG 2018

8.1 Rhoddodd y PSC Morris wybod i'r aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Gwasanaeth â Rheoliad Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data y Deyrnas Unedig 2018.

8.2 Nodwyd bod y cynnydd yn parhau tuag at sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu data. Wrth i ragor o ganllawiau ddod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae'r gwaith yn cael ei gwblhau i ddiwygio neu gyflwyno prosesau a gweithdrefnau newydd.

8.3 Cafodd yr aelodau eu cyflwyno i Brian Mottershead, sydd wedi cael ei benodi'n Swyddog Diogelu Data ar gyfer y Gwasanaeth. Nodwyd y bydd pob aelod yn cael sesiwn friffio ar Reoliad GDPR cyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi a chymeradwyo'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth tuag at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd yn y maes diogelu data.**

Gadawodd Colin Everett y cyfarfod tra oedd yr eitem canlynol yn cael ei thrafod.

9. PENODI SWYDDOG MONITRO/CLERC A DIRPRWY GLERC

9.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i ddechrau ar broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu Swyddog Monitro/Clerc a Dirprwy Glerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen.

9.2 Nododd yr aelodau fod y contract cyfredol ar gyfer darparu swyddog monitro/clerc a dirprwy glerc i'r Awdurdod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Felly, bydd angen i'r Awdurdod ddechrau ar broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu'r swyddi hyn o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen. Dan delerau cyfansoddiad yr Awdurdod, bydd rhaid i'r Awdurdod llawn gymeradwyo penodi'r swyddog monitro ar ôl i bwyllgor argymell penodi a chyn cynnig y swydd i'r person dan sylw. Mae'n debygol y bydd y panel penodi yn cynnwys un aelod o'r Panel Gweithredol o bob awdurdod lleol, fel y drefn ar gyfer penodi i swyddi uwch yn y gorffennol.

9.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r rheidrwydd statudol ar yr Awdurdod i benodi swyddog monitro;**
**(ii) cymeradwyo dechrau proses gystadleuol i ddarparu swyddog monitro/clerc a dirprwy glerc o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen;**
**(iii) nodi y bydd rhaid i'r Awdurdod llawn gymeradwyo'r penodiad yn unol â'i gyfansoddiad.**